

Gyda'r Hen Feirdd

Englynion Dethol

Gan

Carneddog

Erthygl o *Cymru* Gol O.M.Edwards

Cyf 25, 1903 tud 117-122

Cylchgronau Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Gyda'r Hen Feirdd.

[Yn ystod hirddydd haf, byddis yn dewis cael seigiau ysgafn, blasus, a chyfnewidiadau aml. Felly, detholaf,—yn hollol yn ol fy ffansi,—ychydig friwsion o goginiaeth yr hen feirdd,—allan o'm llyfryn llogell. Y maent wedi cael eu casglu o bryd i bryd, o ran cymyraeth ddifyr, o hen lawysgrifau melynion, o hen almanaciau llwydion, ac o wahanol ffynhonnellau eraill.

Hyderaf y caiff rhywun arall fwynhad wrth eu darllen, o dan gysgod derwen yn y waen, ar foncyff pren mawnog yn y mynydd, ar fin y ffrydlif yn y ceunant, neu ar ei gadair esmwyth yn ei barlwr yn y dref. "Gwir Gymro a garo gerdd."

CARNEDEGG.]

I. Y Gafod Ddrwg yn 1542.

Mil a hanner, llownder llu,—dwy a deugain,—
(Da y gwn oed Iesu,)
Pan fu y Gafawd, ddyddbrawd ddu,
Y drwg amrwst drwy Gymru.

PWY?

II. Y Deg Gorchymyn.

Arfer o bump, rhif aur borth,
Ymogel y saith, magl swrth,
A gwna'r deg yn di-warth,
A dos i Nef,—dewis nerth.

RHYS CAIN.*

III. Amddiffyniad, wedi i un haeru fy mod yn eilun-addolwr, ar ol imi ddarlunio "Croes Crist."

Yr anuwiol ffol a ffy,—poen alaeth,
Pan welo lun Iesu;
Llunied ef,—os gwell hynny,
Llun diawl ymhob lle'n ei dŷ.

RHYS CAIN.†

IV. Arwyddion y Tywydd, oddiwrth liw y lleuad newydd.

Gwylid bawb, bob gwlad y boch,
Y lloer lân, y llawr a wlych;
Llawer o'r gwynt yw'r lloer goch,
Lloer wen ydyw'r seren sych.

WM. CYNWAL.

Yn ei flodau o 1560 hyd 1600. Ymladdwr cywyddol ag Edmwnd Prys.

V. Cyngor rhag enllibio.

Ymogelwch, gwyliwch goelio—un chwedl,
Na chodi mawr gyffro;
Profwch oes neb yn prwfo,
Neu llunio bai lle ni bo.

SION TUDUR.‡

VI. Cyngor rhag sathru llysiâu y ddaear.

Sethrir, dirmygir drem agwedd—llysiâu
Lluosog anrhydedd;
Eisieu gwybod, wiwglodd wedd,
Mewn tir hên maint eu rhinwedd.

SION TUDUR, O WIGFAIR.

* Yn ei flodau tua 1580.

† Yr oedd yn fedrus am arlunio.

‡ O Wigfair, ger Llanelwy. Bu farw yn 1602.

Arall.

Rhinweddau llysiâu a'u llun,—a'u graddau,
A'u gwreiddiau, a'u sygun,
Pe gwypai, ni roddai yr un
Drwy'r deyrnas ei droed arny.

LEWIS AP EDWARD.*

VII. Byw yn uniawn.

Di-falchder arfer yw'r yrfa—uniawn
I ennill y rhedfa;
Difalch fydd pob defnydd da:—
Duw i ry-falch rydd drofa.

SIMWNT FYCHAN.†

VIII. Cais Dduwiolder.

Cais dduwiolder per heb ball,—naws anial,
A synwyr i ddeall;
A thi a gei ni thy' gwall
I'th euraw pobpeth arall.

GUTO'R GLYN (?).‡

IX. Brenhinbren y Ganllwyd.

Brenhinbren, brithlen berthlwyd,—a mès-
Grymusbraff y'th roddwyd; [bren,—
Purion tw', gwych bren teg wyd—
Trigeinllath tŵr y Ganllwyd.

SION DAFYDD LAS.§

X. Y Sigl Faen Mawr.||

Ai hwn yw'r Maen, graen gryno—llwydwyn,
Rhwyng Lledr a Machno?
Fe eill dyn unig ei siglo,
Ni choda'n fil a chwe' dyn fo.

WM. CYNWAL.

* Yn ei flodau tua 1568.

† Trigiannai yn Llanelidan, sir Ddinbych. Bu farw Ebrill 5ed, 1606.

‡ Yn ei flodau tua 1540.

§ Bardd teulu i'r Cyrnol Vaughan, o Nannau, ac un parod i yfed cwrw a gwau cynghaneddion ysmala. Yn ei flodau o tua 1650 hyd 1690.

|| A yw y maen hynod hwn i'w weled yn awr rhwyng Pen Machno a Betws y Coed?

Arall.

Clochdy esgobty . . . *—pinael
 Pennaeth coed y ffynnon;
 Tŵr cerrig ar frig y fron,
 A chryd gwyn uwch rhyd Grynnon.

ELLIS PRYS, Plas Iolyn.†

XI. *Sen i Sion ab Ifan, yr hwn a anfonwyd o Fangor i Faen Twrog ar frys, a'r hwn a dariodd yn rhy hir yng Ngwyl Mab Sant oedd ym Medd Celert,—Wyl Fair gyntaf.*

Er gweled merched, er medd,—neu er cerdd,
 Er cwrddydd llu mwynedd;
 Gwell gan hen ddolbren senedd,
 Dre' Fedd Celert bert heb wedd.

EDMWND PRYS.‡

XII. *Cyngor rhag y Frech Wen.—[yn 1630.]*

Cais anian môr farch, cais winwydd—heb
 lenwi,
 Bloneg hwch yn drydydd;
 Bid arian byw'n bedwerydd,
 Ag o'r Frech Fawr gwr iach fydd.

PWY?

XIII. *Cwestiwn pwysig,—ac yn perthyn i'm gwraig fy hun.*

Meddwch, a doedwch ai da—yw'r hwsiw'r
 Aroso'i chwedleua
 Ar hyd y dydd hirddydd ha'
 Tan y nos yn y ty nesa'?

RICHARD ABRAM.§

XIV. *Llef ar y byw o'r llwch.*

Gwel gaethed, saled fy seler,—ystyr,
 A gostwng dy falchder;
 O Dduw! 'does ar y ddae'r
 I weis i fyw ond oes ferr.

EDWARD MORUS, Perthi Llwydion.||

* Beth yw y geiriau priodol?

† Môr-gadben enwog yn amser Bess. Ffitiodd long ryfel ar ei draul ei hun i fyned yn erbyn y Spaeniaid gwrthryfelgar, a lluniodd gywydd doniol ar dermau morwrol. Y mae hwn o'm blaen. Ceir wmbreth o'i waith yn yr Amgueddfa Brydeinig.

‡ Yn ei flodau o 1541 hyd 1624.

§ Ceir ei waith yn "Carolau a Dyriau Duwiol: gwaith y prydyddion goreu yng Nghymru, yr hyn a argraffwyd yn ofalus yn y flwyddyn 1696. Brodor o Ddyffryn Clwyd oedd Rhisiart Abram.

|| Bu y bardd swynol farw oddicartref yn Essex, tra ar ei deithiau fel porthmon gwartheg, yn 1689.

XV. *Wrth glywed y Bytheiaid yn hela.*

Clywais fawl argais fal organ—beraidd,
 Y more'r eis allan;
 Pob mân-lais, pibau mwynlan
 Hyd y coed, huaid a'u cân.

Cydlais yw'r adlais . . . *—yn cweirio
 Carol pryfes feindroed;
 Llais mwyn, glan-gais mewn glyngoed,
 Caine hydd cwm, cân cywydd coed.

Melus-lais cu-adlais cwn,—y bore
 Sy' beraidd ar wyndwn;
 A chorn sydd yn chwyrnu sw'n
 Yn ganiad,—awn ac unwn.
 EDWARD MORUS, Perthi Llwydion.

XVI. *Dwrddio'r Gigfran am waeddi.*

Gwenwyn mewn tewlwyn wyt ti—y gigfran
 Ddu, gegfras, fawr ddifri;
 Osgedd cas, ysgwyddau ci,
 Tewa' gwddw,—taw a gwaeddi!

D. PARRI.

XVII. *Diolch am y glaw ar ol hir sychdwr.*

Dyma'r gwllith a'r gwenith gwyn,—dyma'r
 Dyma'r bara â'r enllyn; [bir,
 Dyma'r mêl a'r cwyr melyn
 O byrth Duw i borthi dyn.

PWY?

XVIII. *Cyngor i'r Gwryfyon.*

'Mogeled merched pob man,—bâr ydyw,
 Briodi dyn trwstan;
 Pob mawr ei chlod, pob merch lân,
 Cyfflybol y caiff leban.

MICHAEL PRICHARD, Llanllyfni.†

XIX. *Cyngor rhag meddwi.*

Ond ffol yw'r gŵr a gymro
 Gan ofer wyr ei hudo,
 I dafarnau, creiriau crôg,
 I ddifa ei geiniog yno.

Pan elo fo'n gleirichyn
 Ni chaiff mor gŵyn gan undyn,
 Ond ei alw ar ei ol,—
 "Yr hen anfuddiol feddwyn!"

MICHAEL PRICHARD.

XX. *Ystyriaeth mewn sobrwydd, ar ol meddwi.*

Cydwylbod meddwdod nis mynn—ond am-
 Ar domen y gelyn; [hwyll
 Gorffwyllo, dawnio mae dyn,
 A'r diawl yn canu'r delyn.

EVAN EVANS, neu Ieuan Brydydd Hir.‡

* Methais a deongli y gair synwylol. P'run ydyw?

† Bu farw yn 1731, yn 21 oed. Y mae ei fedd di-gofnod ym mynwent Llanfechell, Mon.

‡ Bu farw ym mro ei faboed, sef Cynhawdref, Lledrod, yn Awst 1789, oedran 59 mlwydd.

XXI. *Trachwant dynion am ddiod gadarn.*

Fe baid anifeiliaid, pan fo'n—di-ofal,
Nid yfant ond digon;
Ond rhyfedd briw agwedd bron,
Ffud anhawdd,—ni phaid dynion.

RICHARD PHYLIP.*

XXII. *Dymuniad y Marw.*

Ar lêch ym mynwent Ynys Cynhaiarn.
Na agor fy nôr fain wryd—ogof,
Lle mae gwiwgorff llychlyd;
I orwedd gad fi'n ngweryd,
Is clo gwern nes galw i gyd.

SION PHYLIP, o Fochras.†

XXIII. *Cyngor i wragedd cwerylgar.*

Ar ol gweld y "Gadair Goch" ym Miwmaris.

Chwi'r gwagedd rhyfedd eu rhoch—ysgeler,
Ysgowliwch pan fynnoch;
E' bernir a'ch bai arnoch,
Gyda'r gair i'r Gadair Goch.

WM. PHYLIP, o Hendre Fechan.‡

XXIV. *Wrth glywed cloch tŵr cloc Eglwys Crist, Rhydychen, yn tiwnio, 1738.*

Ai "Tom" yw'r Gloch drom a glywwch
draw—'n rhuo?
Mae'n rhywyr ymadaw;
A digllon wyr a degllaw
Cyn y nos yn canu naw.

WM. WYNNE.§

XXV. *Ochenaid, wrth gladdu fy hen athraw anwyl Owen Gruffydd, o Lanystumdwy.*

Rhoi'r bardd mwyn, cu-far-dd mewn cist—
I'r ddaearen athrist; [dderw.
Edrych yr wyf yn odrist—
Yn bruddaidd, drumaid drist.

WM. ELIAS.||

* Brawd i William, Sion, a Dafydd Phylip, o Ardudwy. Yr oedd yn ei fri tua 1624.

† Bu foddi ym Mhwlheli Wyl Fair 1600. Canodd Ed. Prys a Huw Cynfal yn deimladwy ar ol ei golli. Gwelir ei fedd-argraff tarawiadol a chywrain yn Llandanwg. Ceir gwaith Huw Llwyd ar y garreg.

‡ Bu farw yn 1669. Oed 92 mlwydd.

§ Bu farw yn Llanfihangel, Dyffryn Clwyd, Mawrth 22ain, 1760. Oed 55 mlwydd. Ystyria rhai ei gywydd darluniadol o'r "Farn" yn hafal i un Goronwy.

|| Gefail, Plas Hen, Eifionnydd. "Disgybl y tafod" oedd, meddai efe ei hun i'r hen fardd-achyddwr toreithiog o Lanystumdwy. Englynion o'i waith ef sydd yn gerfiedig ar ei feddfaen. Symudodd i Blâs y Glyn, Mon, ac yr oedd yn gyfaill calon i Goronwy a Llew Mawr Mon. Yr oedd yn ei fri mwyaf tua 1746.

XXVI. *I Spaengi Mr. Wm. Fychan, aer Corsygedol [yn 1731].*

Spaengi tew, crychflew, crochfloedd—echrys—
A chroesflew arth ydoedd; [flaidd,
Rhysfin, cresflin du, croesfloedd,
Ceg oer flwng,—ci a garw floedd.

WM. ELIAS, Plas y Glyn, Mon.

XXVII. *Anrhegion i wr bonheddig.*

Ereswiw ffyn iddo roisoch,—a gast—
Daeargast ddu dorgoch,
I dagu ffwlbart dugoch,
Ac i rwygo cadno coch.

PWY?

XXVIII. *Y Cyfreithwyr (yn 1740).*

Cyfreithwyr, noethwyr nythod,—amla'
Heb deimlo cydwybod;
Ffy llawer o ffau y llewod
Yn din y glêr,—tlodion o glod.

PWY?

XXIX. *"Pridd i'r pridd, a lludw i'r lludw."*

Pridd hen ddaearen oeredd—ydwyf,
Ar redeg i'r dyfnfedd;
A lludw yn wir—llwyd iawn ei wedd,—
Iselwael yw fy sylwedd.

MICHAEL PRICHARD, Llanllyfni.

XXX. *Y penglog yn llefaru (a wnaed wrth weld Ynfyty yn cicio penglog mewn mynwent).*

Mi fum i fel dydi'r dyn,—yn f'enioes
Yn fânwallt brigfelyn;
Ti ei di fel fi'n fonyn,
A llwch fel gweli fy llun.

WM. WYNNE, Llangynhafal.

XXXI. *Rhybudd i bawb.*

Ti sathrwr, baeddwr beddau—hyd esgyrn
O! dod ysgafn gamrau;
A chofia ddyn,—briddyn brau,
Y dwthwn sethrir dithau!

JOHN PARRY, Llanelilian.*

XXXII. *Cysegredigrwydd yr Eglwys.†*

Anneddfawr sanctaidd noddfa,—gôr breiniol
Ger bron Duw a'i dyrfa;
Er dim na thyred yma
Y dyn, ond ar feddwl da.

MATHEW OWEN, Llangar, Meirion.‡

* Yn ei flodau goreu tua 1808.

† Y mae'r englyn hwn yn gerfiedig uwchben pyrth a drysau llu mawr o hen eglwysi ein gwlad, yn enwedig rhai Meirion,—sef Llan Frothen, eglwysi Cwmwd Ardudwy; Talyllyn; Machynlleth, &c. Mathew Owen luniodd yr englyn, ac nid Huw Morus na Goronwy Owen, fel yr honnir mewn rhai cylchgronau.

‡ Ceir ei waith yn "Carolau a Dyriau Duwiol," 1696, a "Blodeugerdd Cymru," 1759. Lluniodd gywydd marwnad dan gamp i'w eilun-ryfelwr, Syr John Owen o'r Clenennau.

XXXIII. *Cyngor i offeiriaid Cymru (yn 1767).*

Gweithiwch, a dysgwch dasgau—o'r Beibl
I'r bobloedd, a salmau,
At Dduw, y rhowch weddiau
Am Ei bur rās i barhau.

DAFYDD JONES, neu Dewi Fardd.*

XXXIV. *Arall, i bob un o'r addolwyr.*

Cais ffydd pur, ufudd parha,—cu synwyr,—
Cusana'r Meseia;
Câr y cariad cywira,
Pur Oen Duw, ein Prynwr da.

DEWI FARDD, o Drefriw.

XXXV. *A wnaed pan oedd y mwg bron a'm mygu yn fy ngwely,—oedd wrth y tân.*

Dirfawr led hyllfawr dywyllfŵg,—a dudew
Gyfodadwy hwrwg;
Trwyth tawddwres yw'r tARTH tewddrwyg,—
Uwch tân mawn, tawch tonnau mwg.

SION POWELL.†

XXXVI. *Wedi i'r mwg gilio, gwelwn y sêr trwy y tô tyllog o'm gwely,—pryd y cenais iddynt,—*

Gerddi crogedig harddwych,—fel adar,
Neu flodau'n yr entrych;‡
Tariannau aur tirionwch,
Meillion nef,—mae eu lle'n wych.

SION POWELL.

XXXVII. *Cwestiwn,—(yn Almanac 1768).*

Pwy a ga'dd ei ladd, oedd lân,—a dillad?—
Deallwch mai gwrthban;
Trueni fu'r tro anian,
Hynny fu,—ni henwaf fan.

DEWI FARDD, Trefriw.

XXXVIII. *Atebiad.*

Mab ordderch, cyw merch'n cam warchawd,—
mygodd,
Ca'dd megis lladd-lethiad;
Ond allai hwn a dillad
(Glân ei fron!) gael yno frâd?

JONATHAN HUGHES, Pengwern, ger Llangollen.§

* Tan yr Yw, Trefriw. Yn ei ogoniant o 1750 hyd 1780. Argraffydd a chyhoeddydd "Blodeugerdd Cymru," ynghyd a chasglydd ei gynhwysiad.

† Nant Rhyd yr Eirin, Llansannan. Gwehydd ydoedd. Bu farw yn 1767. Ystyrir ei gywydd i'r "Haul" yn orchestol. Canmolai Goronwy Ddu ef.

‡ Mewn rhai ysgrifau, ceir y ddwy linell gyntaf yma fel hyn,—

"Wele ser luaws eurwch—o flodau,
Fel adar yn'r entrych."

§ Bu farw yn 1805, oedran 84 mlwydd. Awdwr "Bardd y Byrddau."

XXXIX. *I Sior y Trydydd,—a ddechreuodd deyrnasu y 27ain o Hydref, 1760.*

O, Arglwydd! gwiwrwydd gore,—pur
Prynwr ein heneidie, [enwog—
Dwg ein Brenin a ninne
Allan o'r niwl cll i'r ne'!

DAVID DAVIES, Castell Hywel, yn 1779.*

XL. *Cyngor i'r bardd ieuanc John Jones, Glan y Gors, rhag sbeitio y merched.*

Ergydion i ryw Gadi†—a roddaist
O wreiddyn dy goegni;
Os cest awen, cais dewi
A lliwied merched i mi.

Holed dyn ei hun heno,—a gwylied
I'w galon ei dwyllo;
Mae natur, mi wn eto,
A dull ei chwant yn dwyll o'i cho'.

JOHN THOMAS, Pentre'r Foelas.‡

XLI. *A gerfiwyd ar gawg arian,—rhodd boneddigion sir Ddinbych i Syr Watkin Williams Wynn, ar ol brwydr Waterloo. Cyflwynwyd ef iddo yn Rhuthyn Mai 21ain, 1816. Pwysa y cawg 1,500 owns, gwerth 19s. yr owns—3 troedfedd a 2 fodfedd o uchder, wrth 2 droedfedd a 4 modfedd o drawsfesur. Deil 14 o alwyni.*

Y Fail arian am filwrio—a roddwyd
I raddol fwyn Gymro,—
Syr Watkin, brigyn ein bro,
I'w gyfarch a'i hir gofio.

JOHN JONES, Glan y Gors.§

XLII. *Camp-Englynion, a wnaed yn fyr-fyfyfyr, wedi cinio ar ddydd Nadolig yn nhŷ John Thomas, Pentre'r Foelas, wrth ganfod y Wyddfa dan eira.*

Oer yw'r eira ar Eryri,—o'i ryw
A'r awyr i rewi;
Oer yw'r ia ar riw'r ri,
A'r eira oer yw'r 'Ryri.

JOHN THOMAS.

Oer, oer, yw'r rhew â'r eira—a yrrir,
Y 'Ryri a oera;
A'r awyr oer wir rewa,
Eira a rhew,—oer yw'r ia.

THOMAS EDWARDS, Nant.†

* Bu farw oddeutu 1826, oedran 83 mlwydd. Awdwr "Telyn Dewi."

† Methaf yn lân a tharo ar y gerdd hon i "Cadi." Pwy a'i henfydd imi? Hefyd, ei gerdd i "Wr Hafod Ifan?"

‡ Bu farw y 18fed o Fedi, 1818, oed 66 mlwydd (71 mlwydd medd rhai). Awdwr cynwys "Eos Gwynedd."

§ Bu farw Medi 21ain, 1821, oedran 52 mlwydd. "Prif faledwr Cymru," medd Elfed. Yr wyf yn casglu ei holl weithiau. Os y gwyr rhywun am gerdd, englyn, llythyr, &c., o'i eiddo byddwn ddiolchgar am gael copi. Dywed "Y Gwladgarwr" mai Bardd Nantglyn a'i gwnaeth, ond sicrha y gyfrol "The Wynnstay and the Wynns" mai Glan Gors a'i piau.

|| Bu farw Ebrill 3ydd, 1810, oedran 72 mlwydd. Awdwr "Gardd o Gerddi," &c.

Y 'Ryri yw'r awyr oera,—yr âr,
A'r oror wir arwa';
Arwr yr awr yw'r eira,
A'i ryw a ry'r rhew â'r ia.
JONATHAN HUGHES, Pengwern.

XLIII. *A gerfiwyd uwchben drws cegin
amaethdy.*

O fryd na wnewch afradau,—na byw'n
Byw'n gynil sydd orau; [gain,—
Er mwyn rhoi mawl i'r Iôr mau
Y rhoddwyd trugareddau.
Pwy?

XLIV. *A wnaed pan ddaeth Mr. Pugh â'r efail
bedoli, i hoelio a sicrhau pedolau y ceffyl
wrth Mathafarn, Llanwrin.*

Profi pedoli pedwar carn—gwineu,
Yfed gwin o fasarn;
Fyth y fo llwydd ar Fathafarn—
Llwydd a fydd hyd ddydd y farn.
ROBYN DDU DDEWIN.*

XLV. *Arall,—Wrth weld Mr. Pugh â'r efail
bedoli chwaddodd y merched, pryd y
dwedwyd ymhellach,—*

Y ty lle mae merched teg,
Yn wir a welir yn wag,—
Draenen wen lle mae y mwg,
A nyth brân yn eitha'i brig.
ROBYN DDU DDEWIN.

XLVI. *Pa fath le ydyw Uffern?*

Lle noeth i fyw mewn aethfyd,—lle prudd,—
Lle prydyddion hefyd;
A'r gân fo eu hamcan o hyd,—
Anferth fod neb mor ynfyd.

Lle Satan aflan a'i lu,—lle go wael,
Lle gelynion Iesu;
Lle'r dial, lle llwyr dalu,
Lle'r prudd dân,—lle'r praidd du.
RHYS MORGAN, o Forgannwg.

XLVII. *Pwy sy'n Fardd?*

Nid bardd pob clerfardd cul arfod—i'n plith,
Sy'n plethu rhimynod;
Nid oes un hardd fardd i fod
Da ei dwf a dau dafod.—

Dau lafn yn yr un safn sech,
Un o nef a'i enwi'n iach;
A'r llall yn chwith, brith a brych,
Ail i fardd,—ac wele fwch.

SION LLEYN, yn 1793.†

* Pwy oedd yr hen gono yma mewn difrif, a pha bryd yn iawn yr oesai? Gwelais mai brodor o Fon ydoedd. Gelwid Robert Hughes, Ceint Bâch, yr hwn a huno yn Heneglwys yn "Robyn Ddu o Fon," ond nid efe oedd y dewin hwn, fel y ceisia rhai hysbysu. Pwy oedd y Robyn Cludro hwnnw o Langefni?

† Bu farw yn 1819, oed 68 mlwydd. Huno yn Denio, Pwllheli.

XLVIII. *Tafodi Rhegen yr Yd.*

Regen'r yd fawlyd, folwen,—â'i rhegnâd
Mal rhygnu carwden;
Dy nabod,—jad aniben,—
Cael dy nyth,—ddown byth i ben.

ROBERT DAVIES, Nantglyn.*

XLIX. *Cysur gwely angeu.*

Gorweddais, cefais mewn cur—oer ofid,
Arafodd fy natur;
Mewn trymglwy,—pwy ond Duw pur,
Cu Iesu all roi cysur?

WM. EDWARDS, o Ysgeiflog.†

L. *Gwywiad Gwen.*

Tirion gangen Gwen oedd gynau,—dilesg
Yn dwyn dail a blodau;
A'r Wen hon nol hir wanhau
Dengys ol dyrnod angau.

DAFYDD DDU ERYRI.‡

LI. *A adroddwyd yn y wledd wrth yfed y
llwncdestyn "Parchus Goffadwriaeth Dewi
Sant," ar adeg Eisteddfod fawr Caernarfon
1824.*

Sant Dewi sy'n y tywod—yn llechu
Yn lloches y beddrod;
Hen Babydd § yn nydd ei nod,—
Ef er hyn fu orhynod.

PETER EVANS, Caernarfon.||

LII. *Hunan yn dangos ei hunan.*

O'r bachgen hyd yr henwr—mae Hunan
Am ei hynod gyflwr;
O'r mawreddaf, uchaf wr
Ceir hyd at y cardotwr.

OWEN WILLIAMS.¶

* Bu farw Rhagfyr 1af, 1835, oed 66 mlwydd. Awdwr "Diliau Barddas;" "Gramadeg Cymraeg," &c.

† Bu farw yn 1855, oed 65 mlwydd. Awdwr "Cell Callestr."

‡ Bu fodd i yn yr afon Cegin, Llanddeiniolen, Mawrth 30ain, 1822, oed 63 mlwydd. Awdwr "Corph y Gainc," &c.

§ Cynhyrfodd yr honiad yma lu o wyr llên yr Eglwys o dan arweiniad J. Blackwell (Alun) i gyhuddo yr awdwr o gabldraeth ofnadwy yn erbyn sant cenedl y Cymry. Bu gorfod iddo, druan, ymddiheuro, neu wynebu costau cyfraith.

|| Dechreuodd argraffu yng Nghaernarfon yn 1816.

¶ Neu Owain Gwyrfa, y Waen Fawr. Bu farw Hydref 3ydd, 1874, oed 85 mlwydd. Awdwr "Geirlyfr Cymraeg o wybodaeth gyffredinol;" "Hanes y deg Erledigaeth dan Rhufain Baganaid;" "Y Drysorfa Hynafiaethol," &c.

LIII. *Cwyn hen Faledwr ar auaf caled.*

Byw ar driswllt, bron drysu—am wythnos,
A methu trafaelu,
Drudaniaeth yn dirdynu
I'm herbyn, er dychryn du.

OWEN GRUFFYDD.*

LIV. *Englyn a adroddwyd yn fyrfyr o ran hwyl wrth Ioan Emlyn yng ngorsaf yr Afon Wen, ganol haf 1869, ar ol bod mewn cyfarfod dilewyrch yn Abersoch.*

Rhyw bur sychion yw'r Abersochiaid,—“lloi
Lleyn” sydd yn ddienaid;
Wedi'r hwyl eu gado raid
Yno fel anifeiliaid.

AP VYCHAN.

LV. *Ochenaid y bardd claf.†*

Digonwyd fi ar deganau—y byd,
Aed ei barch ac yntau
I ryw ddyn a gâr y ddau,—
Mynwent a nef i minau.

D. PRICE (Dewi Dinorwig).‡

LVI. *Yn Eisteddfod Utica, 1874.—Y Llywydd yn annerch Tanymarian (pan oedd ar ei daith drwy'r Amerig).*

Nid pwffio, stwffio, wnaeth Stephan—am
Gyda'i glul yn unman; [glod
Ond cafodd drwy'r byd cyfan
Fawr fri am ragori'r gân.

DEWI DINORWIG.

LVII. *Yntau yn Ateb.*

O Dewi! pa bryd y deufaf—atat,
Ac eto yth welaf;
Boed a fo, Cymro, caf
Dy ddelw y dydd olaf.

EDWARD STEPHAN (Tanymarian).§

* Neu Owair Meirion, Glanrhyd, Llanbrynmair. Bu farw Mehefin 22ain, 1868, oed 65 mlwydd. Huna yn Llanbrynmair, a cheir englyn o waith Mynyddog ar ei feddfaen.

† Dyma hoffus englyn y Parch. Thomas Hughes (Machynlleth), yn ei ddyddiau olaf, ond nid efe a'i cyfansoddodd fel y tystiwyd yn y newyddiaduron adeg ei farwolaeth.

‡ Bu yn weinidog yn Ninbych yn hir. Yna symudodd i'r Amerig. Mewn penhillion tlysiion a wnaeth pan yn wael yn 1867 dywed,—

“Rwyf yn foddolawn iawn i farw,
Ond yn gyntaf roddi tro
Unwaith eto drwy hen Walia,—
Anwyl enedigol fro;
Carwn sengyd ar y llanerch
Lle dechreuais gerdded cam,
Carwn weled Llanddeiniolen
Lle mae bedd fy nhad a mam!”

Cafodd wella. Yn 1870 yr oedd yn Williamsburg, Iowa; yno y lluniodd y penhillion “Ddaw henaint ddim ei hunan,” gwel CYMRU, Mawrth, 1902. Ym mhle y ganwyd ef yn Llanddeiniolen? Pryd y bu farw?

§ Bu farw Mai 10fed, 1885, oed 59 mlwydd. Pregethwr, cerddor, bardd, a llenor.

LVIII. *Anerchiad arall, yn yr un Eisteddfod.*

'E gilia ofergoelion—o flaen dysg,
Fel hyn daw prydyddion
I enw da, ac o un dôn,
I'r oes yn werthfawr weision.

Difuddia diod feddwol—o'i dilyn
Dalent awenyddol;
Ond pob wyneb heb ei hol
Fo adeg eisteddfodol.

EOS GLAN TWRCH.*

LXIX. *Yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, Awst 1876, yr oedd Taliesin o Eifion, enillydd y gadair am yr awdl oreu i “Helen Llwyddawg, merch Coel Godebog,” yn ei fedd. Cafwyd yno “Gadair Ddu.” Wedi i Madam Edith Wynne ganu “Dafydd y Gareg Wen” gyda theimladau drylliog,—cafwyd yr englynion a ganlyn,—*

Dai ymgais diamgen—“Eusebius”
Hybarch ar awdl-llen;
A da i'n bardd i'w godi'n ben
I drwyadl gadair awen.

Adwaedd iaith bedyddio yw,—rhoi mawredd
Ar y meirw heddyw;
Swydd odiaeth Gorsedd ydyw
Graddio'r bedd ag urddau'r byw.

Taliesin o fin ei fedd—ragorodd
Ar gewri'r gynghanedd;
A chael drwy gynrhychioledd
Barchus hawl i wobr ei sedd.

GWALCHMAI.

LX. *Sion Cent.—1480.†*

Disgwylid i ysgolion,—â llwyr lwydd,
Wella'r wlad o'i swynion:
Eto mae bryd twym ei bron
Ar ei gwael ofergoelion.

I wneyd taw yn eu teicos,—a bygwth
Bwgan ar eu plantos,
Oer enwai y werinos
Ficer nef yn fwci'r nos.

Ond er gwarth i randir Gwent—y Saeson,
Deil grasusau talent;
Tra maen ar faen i'r fynwent,
Bydd sain côr ger bedd Sion Cent.

ROBYN DDU ERYRI (yn Hwlfordd yn 1877).

* Ganwyd yn Ty'n y Fedw, Llanuwchllyn.

† Megis y tybiai'r werin, yn oes Sion Cent, fod pob llenor yn cyfeillachu â'r ysbrydion drwg, felly y mae pobl ym mhlwyf Cent, Henffordd, ac yn y plwyfi cylchynol, yn tybio fod ysbryd bardd-offeiriad yn ymrithio i'w mysg yn yr oes hon. Mynych y clywir mamau yn rhybuddio eu plant nad elont ymhell oddiwrth ddrysau eu tai y nos, rhag i Sion Cent eu cipio.